Ysgol Bro Tryweryn
Frongoch
Y Bala
Gwynedd
LL23 7NT
01678 520 740
Pennaeth Mewn Gofal: Miss Heledd Owen
e-bost: heleddwynowen@gwynedd.llyw.cymru

Dydd Gwener, Rhagfyr 16eg, 2016

Annwyl Rieni,
Ar ddiwedd tymor fel hyn ysgrifennaf atoch i ddiolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth gadarn i'r ysgol yn ystod y tymor yma. Rydym wedi cael tymor prysur iawn ac erbyn hyn mae pawb yn barod am egwyl bach.

Llywodraethwyr

Croeso i Gwennan Jones a Ffion Jones i Gorff Llywodraethol yr Ysgol fel eich cynrychiolwyr rhieni. Croeso hefyd i Sian Edwards fel Cadeirydd y Corff am y flwyddyn. Diolch i chi am eich parodrwydd i gefnogi'r ysgol.

Digwyddiadau

Diolch i'r holl ddisgyblion fu'n cymryd rhan yng ngwasanaeth Sul yr Urdd yng Nghapel Tegid, a diolch i chi rhieni am eu cefnogi yno. Hefyd, llongyfarchiadau i'r offerynnwyr fu'n perfformio yng Nghyngerdd Cerddorfa'r Rhanbarth am gynnal noson arbennig. Bu timau rygbi'r ysgol o flwyddyn 3 – 6 eu canmol yn fawr gan Euros yn y gystadleuaeth Tag ar y cae 3G, da iawn chi!

Codi Arian

Elusennau;

- Bore Coffi Macmillan – llwyddodd y cyngor ysgol i godi £325 tuag at elusen Macmillan.
- Gwasanaeth Diolchgarwch- casglwyd £118 tuag at Apel Trychineb Haiti.
- Plant Mewn Angen - £76.00
- Diwrnod Siwmper Nadolig: Elusen Achub Y Plant - Mae'r casgliad yma yn cynnwys cyfraniad yr un gan yr athrawon a staff yr ysgol yn hytrach na rhoi cardiau Nadolig i'r holl ddisgyblion eleni.

Cronfa'r ysgol;

- Ffair Nadolig yr ysgol - casglwyd £1,095
- Calendrau o luniau'r ardal - £323.00 yw swm yr elw ar hyn o bryd
- Bag2School – casglwyd £122.00 am ein bagiau dillad.
- Easyfundraising – Bro Tryweryn - £476.80, daliwch ati i ddefnyddio hwn drwy'r flwyddyn!

Bydd holl arian sy'n cael ei godi i gornfa'r ysgol yn mynd tuag gostau bws am dripiau amrywiol ac at ein hymdrech i brynu 'Chrome Books' newydd i'r ysgol.

Noson Siopa Hwyr, Y Bala

Llongyfarchiadau i Sioned am ennill y 3edd wobr yng nghystadleuaeth Celf i Blant sef creu anrheg Nadolig.

Siarter Iaith

Llongyfarchiadau i bawb! Mae'r ysgol wedi derbyn Y Wobr Aur Siarter Iaith. Diolch yn fawr i'r Cyngor Ysgol am helpu i lywio'r prosiect o ddatblygu'r diddordeb mewn bandiau Cymraeg a rhaglenni teledu Cymraeg dros y flwyddyn diwethaf. Daliwch ati!

Presenoldeb a Phrydlondeb i'r Ysgol.

Presenoldeb y Tymor yma yw 96% - Gwych! Bu i'r salwch ein taro yn drwm ar ddiwedd y tymor – diolch i chi am gymryd sylw o'r rheol 48awr cyn dychwelyd yn ôl i'r ysgol, y ffordd yma rydym yn sicrhau fod y salwch yn diflannu cyn gynted ag y bo modd.

Arian Cinio

Hoffwn eich hatgoffa mai £2.30 y diwrnod, £11.50 am yr wythnos yw pris cinio ysgol. Hoffai Mrs Morris dderbyn yr arian cywir os gwelwch yn dda ar arian i gyrraedd yr ysgol ar fore Ddydd Llun.

Cyngerdd Nadolig

Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi ein Cyngerdd Nadolig yr wythnos hon-braf oedd gweld neuadd yr ysgol yn llawn deirgwaith. Casglwyd £372.00 ar y raffl fel cyfraniad tuag at Gronfa'r Ysgol. Mi fydd lluniau o'r plant i'w gweld yn y Free Press gan Ifan Dobson. Diolch hefyd i Trefor a Carol Wynne, Hendre Glanalwen am ddod a Seren - yr asyn bach hyfryd, i ddrama Nadolig y plant bach.

Byddwn hefyd yn ffarwelio a Mr Einion Edwards sydd wedi bod yn fyfyriwr yn nosbarth Miss Glyn ers dechrau Hydref. Mae Mr Edwards wedi bod yn weithgar iawn yn yr ysgol a gobeithio ei fod wedi mwynhau yma yn ein cwmni. Dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol.

Dyna ni am y tymor yma. Dymunaf Nadolig Llawen i chi gyd ac edrychwn ymlaen i weld pawb yn 2017 – byddwn yn ail agor Ddydd Mawrth, Ionawr y 3^{ydd}.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

Miss Heledd Owen.

Ysgol Bro Tryweryn
Frongoch
Y Bala
Gwynedd
LL23 7NT
01678 520 740
Acting Headteacher: Miss Heledd Owen
e-mail: heleddwynowen@gwynedd.gov.uk

Friday, December 16th, 2016

Dear Parents,
I would like to thank you for your support during this term, we all have had a very busy time and I'm sure everyone's looking forward to a well-deserved holiday!

School Governors

A warm welcome to Gwennan Jones and Ffion Jones on the School's Governing Body as parent representatives. Also, welcome to Sian Edwards as the Chairman of the School's Governing Body for the year. Thank you for your willingness to support the school.

Events

Thanks to all the pupils who took part in the Urdd service at Capel Tegid, and thank you parents for your support. Also, congratulations to the instrumentalists who performed at the Region Orchestra for hosting a special evening. Our schools rugby teams from year 3-6 are highly praised by Euros in the Tag competition on the 3G field, well done!

Fundraising

Charities;

- Macmillan Coffee Morning - the council managed to raise £325 schools towards Macmillan.
- Thanksgiving Service - we collected £118 towards the Haiti Disaster Appeal.
  Children in Need - £76.00
- Christmas Jumper Day: Charity Save The Children - This collection contains contributions from the teachers and school staff rather than giving Christmas cards to all pupils this year.

School fund;

- Christmas Fayre - collected £ 1,095
- Calendars pictures of the area - £323.00 raised so far
- Bag2School - we collected our bags £122.00 for clothing.
- Easyfundraising - Bro Tryweryn - £ 476.80, please continue to use this all year!

All the money that we raise will go towards the school's funds which pays buses for various trips and to our effort to buy new Chrome Books' for the school.

Bala Late Night Shopping

Congratulations to Sioned who won 3rd prize for her Christmas Gift craft.

Language Charter

Congratulations to all! The school has received the Gold Award 'Language Charter'. Many thanks to the School Council for helping to steer the project of developing an interest in Welsh bands and Welsh television programs over the past year. Keep going!

School Attendance and Punctuality

This term's attendance is 96% - Great! The illness hit us hard at the end of the season - thank you for taking note of the 48 hour rule before returning to school, this way we ensure that the illness will disappear as soon as possible.

Dinner Money

I would like to remind everyone the price of school dinner is £2.30 a day, £11.50 for the whole week. Please can everyone send the correct amount and money to be paid on a Monday morning for the attention of Mrs Morris. Thank you

Christmas concert

A big thank you to everyone for supporting our Christmas concert this week-it was nice to see the hall full three times. We collected £ 372.00 on the raffle. Pictures of the children can be found in the Free Press by Ifan Dobson. Thanks also to Trefor and Carol Wynne, Hendre Glanalwen for bringing Seren - the lovely little donkey, to the young children's Nativity Play.

We also say goodbye to Mr Einion Edwards who has been a student in Miss Glyn's class since early October. Mr Edwards has been very active in school and we hope that he has enjoyed here in our company. We wish him well for the future.

That's it for this term. I wish you all a very Merry Christmas and look forward to seeing everyone in 2017 – when we reopen on Tuesday, January 3rd.

Merry Christmas and a Happy New Year!

Miss Heledd Owen.